| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y Cyngor Llawn** |
| DYDDIAD: | **3 Mawrth 2016** |
| PWNC: | **CYLLIDEB 2016/17** |
| AELOD CABINET: | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| PWRPAS: | **Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2016/17** |

**CYLLIDEB 2016/17**

1. Mae argymhellion y Cabinet i'r Cyngor llawn wedi'u cynnwys ar flaen y rhaglen, yn cynnwys, ynghyd â rhestr toriadau, ayb, -

    (i) y dylid mabwysiadu'r gyllideb a grybwyllir yn adroddiad yr Aelod Cabinet ar gyfer 2016/17 sy'n golygu sefydlu cyllideb o **£227,227,120** ar gyfer 2016/17, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o **£166,950,760** a **£60,276,360** o incwm Treth Cyngor fyddai'n golygu cynyddu'r Dreth Gyngor **3.97%,** sef cynnydd £46.09 yn y Dreth Gyngor Band D o £1,161.07 i **£1,207.16** y flwyddyn.

2. Mae'n rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer y flwyddyn i ddod (2016/17), gan sicrhau fod y gwariant yn cyd-fynd a'i incwm. Yn hanesyddol, ac yn unol ag ymarfer gorau (sydd wedi'i gydnabod gan Swyddfa Archwilio Cymru), mae'r Cyngor wedi sefydlu ei gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

3. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i ni, gan ein bod wedi medru cynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog/anghywir o ran y buddion i'r dinesydd. Cyfeirir ymhellach at gynllunio ariannol tymor canol yn ail ran y papur hwn.

4. Wedi ymgynghori mewn cyfres o weithdai i graffu'r toriadau posib yn Ionawr, a gyda'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Chwefror, mae'r Cabinet wedi argymell cyllideb i'r Cyngor ystyried ei gymeradwyo.

5. Mae'r atodiadau sydd ynghlwm i'r adroddiad yma yn manylu ar yr holl faterion perthnasol sydd angen eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2016/17, ynghyd â'r materion hynny sydd yn dylanwadu ar sefydlu strategaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r papur 'Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20' sydd ynghlwm ar sail cynnydd treth 3.5%, fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet, ond mae'r adroddiad blaen yma'n nodi'r ffigyrau addasedig fel trywydd i'r cynnydd treth 3.97% a argymhellir i'r Cyngor.

6. Gyda chynnydd treth o 3.97%, gellir crynhoi'r hyn a argymhellir ar gyfer 2016/17 fel a ganlyn –

| | |
|---|---|
| Anghenion Gwario 2016/17 | £238,454,140 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | £166,950,760 |
| Llai incwm Treth Cyngor (3.97%) | £60,276,360 |
| Diffyg | £11,227,020 |
| Arbedion fydd wedi'u cyflawni | £6,424,500 |
| Y balans i'w gwrdd o Doriadau / Pontio | £4,802,520 |

7. Gyda'r bwlch ariannol ar gyfer 2017/18, a gan ragdybio cynnydd treth 3.97% eto erbyn 2017/18, byddai'r balans i'w gwrdd o doriadau dros y 2 flynedd yn £4.94m.

8. Erbyn 2016/17, mae asesiad o'n anghenion gwario sylfaenol yn awgrymu fod angen cynyddu ein gwariant i £238.5m er mwyn "sefyll yn llonydd".

9. Mae hyn yn cynnwys £1,284,000 i gwrdd â chostau trosglwyddiadau i mewn i'r setliad ynghyd â £1,174,810 i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau, £2.6m ar gyfer y cynnydd mewn cyfraniadau yswriant gwladol, £4.2m ar gyfer chwyddiant, ayb. Rhoddir manylion llawn o'r rhain yn rhan 3 o'r atodiad amgaeedig.

10. Bydd hefyd angen cyfarch anghenion un-tro cyfwerth â £820,740 i'w ariannu un-tro o gronfeydd penodol yn 2016/17.

11. Cofier fod prif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn, drwy'r Cynllun Strategol. Beth gyflwynir yma (ac yn rhan 3 o'r atodiad) yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

12. O fewn y gyllideb a gynigir, rhagwelir y byddwn yn cydymffurfio ag addewid cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, ond maent yn wynebu pwysau ar eu cyllidebau dirprwyedig oherwydd cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol (£1.2m) a phensiynau athrawon (£388k), ynghyd â £2m o arbedion effeithlonrwydd cytunedig.

13. Bydd y grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru am 2016/17 yn lleihau 1.5% i £167m, sef gostyngiad sylweddol arall yn dilyn y lleihad 4% yn 2015/16 a'r lleihad 4.4% yn 2014/15.

14. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol y mae hyn yn ei greu yn 2016/17, bydd modd priodoli arbediad £2m o'r ysgolion, a galw ar £3m o arbedion effeithlonrwydd roedd eisoes ar y gweill, ynghyd â £1.2m o arbedion newydd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2016/17.

15. Argymhellir y dylid cyfarch gweddill y bwlch drwy gyfuniad o gynyddu'r Dreth Cygor a thoriadau gwasanaeth wedi'u blaenoriaethu yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, "Her Gwynedd".

16. Mae'r adroddiad 'Toriadau i gyfarch y bwlch ariannol' sydd ynghlwm fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet yn egluro sut mae codi'r dreth 3.97%, yn hytrach na 3.5%, yn osgoi gweithredu rhai o'r toriadau a ystyriwyd.

17. Argymhellir codi'r Dreth Cyngor 3.97% erbyn 2016/17 a 2017/18 er mwyn cyfyngu'r toriadau ar wasanaethau i bobl Gwynedd. Erbyn 2016/17, byddai cynnydd Treth Cyngor o 3.97% yn gynnydd wythnosol o 88c, neu £46.09 yn flynyddol, gyda threth o £1,207.16 ar gyfer eiddo 'Band D'.

18. Ni fydd modd cynhaeafu'r holl doriadau ar unwaith o Ebrill 2016. Felly, amcangyfrifir bydd angen "pontio" £2,106,050 yn 2016/17, i'w ariannu trwy adolygu lefel cronfeydd penodol (fel awgrymir ym mharagraffau 8.6 – 8.8 o'r papur dilynol am Gyllideb 2016/17).

19. O fewn y gyllideb a gynigir, un risg yw'r ffaith na fydd cyllideb wrth gefn cyffredinol. Bydd rhaid disgyn yn ôl ar falansau'r Cyngor os ceir anghenion gwario annisgwyl.

20. Yn dilyn cyflawni adolygiad trylwyr o'r Cynllun Rheoli Asedau, rydym wedi addasu rhaglen gyfalaf 2016/17 a sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2017/18, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 2, fydd yn golygu rhaglen o £22.14m yn 2016/17, a £12.29m yn 2017/18. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na'r adnodd penodol yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

21. Pe byddai'r Cyngor yn fodlon cynyddu'r Dreth Cyngor 3.97% yn 2016/17 a 2017/18, gyda'r toriadau y bwriedir eu gweithredu ynghyd â'r arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu, amcangyfrifir byddai hyn yn golygu cyllideb gytbwys dros y 2 flynedd. Fodd bynnag, am gyd-destun, mae'n ddoeth i edrych ymhellach i'r tymor canol.

**STRATEGAETH TYMOR CANOLIG**

22. Adroddwyd yn Chwefror 2014 y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £50m dros y cyfnod 4 blynedd 2014/15 - 2017/18, a chynlluniwyd y strategaeth arbedion cyfredol.

23. Cyflwynwyd rhagolygon diwygiedig i gyfarfod 24 Tachwedd 2015 o'r Cabinet, gyda "senario ganolog" yn cynnwys cwtogiad mewn grant Llywodraeth o 2% erbyn 2016/17, roedd yn llawer llai pesimistaidd nac oedd yn gyffredin ar draws Gymru ar y pryd.

24. Casglwyd yn adroddiad Tachwedd "fod y tebygolrwydd o orfod gweithredu toriadau yn 2016/17 a 2017/18 **ddim** wedi newid yn sylweddol ers pryd cychwynnwyd y strategaeth toriadau cyfredol." Cadarnhaf fod hynny yn parhau i fod yn wir.

25. Ymhellach i doriad grant o 1.5% yn 'setliad' drafft Llywodraeth Cymru cyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2015 ac ar sail cynnydd treth 3.5%, cyflwynwyd y rhagolygon yn y tabl isod i'r Cabinet 16 Chwefror.

**CYLLIDEB 2016/17 i 2019/20** *(fersiwn cyflwynwyd i'r Cabinet @ 3.5%)*

| | **2016/17 £'000** | **2017/18 £'000** | **2018/19 £'000** | **2019/20 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl Defnydd Balansau | 2,019 | | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,261 | 8,220 | 6,631 | 7,486 |
| Gostyngiad Grant Cyffredinol | 1,322 | 2,100 | 3,100 | 2,900 |
| Codi'r Dreth Cyngor | - 2,141 | - 2,220 | - 2,302 | - 2,387 |
| **Bwlch** | 11,461 | 8,100 | 7,429 | 7,999 |
| Arbedion Cyfredol | - 3,090 | - 3,947 | - 130 | - |
| Arbedion Ysgolion | - 2,095 | - 990 | - 263 | |
| Arbedion Ychwanegol | - 1,240 | - 2,692 | - 1,009 | - 2,315 |
| Y balans o'r bwlch = **Toriadau'r flwyddyn** | 5,036 | 471 | 6,027 | 5,684 |
| Toriadau'r flwyddyn ganlynol | 471 | | 5,684 | |
| **Toriadau'r 2 flynedd** (strategaeth 2 + 2) | **5,507** | | 11,711 | |

26. Ymhellach i addasiad hwyr i'r grant (e-bost oddi wrth Llywodraeth Cymru ar 10/02/2016 yn lleihau dyraniad Gwynedd o £39,440), cyflwynir y tabl isod, sydd hefyd yn adlewyrchu cynnydd treth tebygol o 3.97% yn 2016/17 a 2017/18.

**CYLLIDEB 2016/17 i 2019/20** *(fersiwn diwygiedig ar gyfer y Cyngor llawn @ 3.97%)*

| | **2016/17** TC 3.97% **£'000** | **2017/18** TC 3.97% **£'000** | **2018/19** TC 3.5% **£'000** | **2019/20** TC 3.5% **£'000** |
|---|---|---|---|---|
| Ychwanegu 'nôl Defnydd Balansau | 2,019 | | | |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 10,222 | 8,220 | 6,631 | 7,486 |
| Gostyngiad Grant Cyffredinol | 1,361 | 2,100 | 3,100 | 2,900 |
| Codi'r Dreth Cyngor | - 2,413 | - 2,514 | - 2,302 | - 2,387 |
| **Bwlch** | 11,189 | 7,806 | 7,429 | 7,999 |
| Arbedion Cyfredol | - 3,090 | - 3,947 | - 130 | - |
| Arbedion Ysgolion | - 2,095 | - 990 | - 263 | |
| Arbedion Ychwanegol | - 1,240 | - 2,692 | - 1,009 | - 2,315 |
| Y balans o'r bwlch = **Toriadau'r flwyddyn** | 4,764 | 177 | 6,027 | 5,684 |
| Toriadau'r flwyddyn ganlynol | 177 | | 5,684 | |
| **Toriadau'r 2 flynedd** (strategaeth 2 + 2) | **4,941** | | 11,711 | |

27. Mae'r ffigwr crwn o £4.941m uchod yn gyson gyda chyfanswm y toriadau sy'n yr argymhelliad (ar raglen cyfarfod y Cyngor), sef £4,940,900.

28. Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 blynedd. Yn anffodus, nid yw hynny'n ymarferol eleni, gan fod Llywodraeth Cymru (mewn blwyddyn etholiad) yn bwriadu darparu setliad am un flwyddyn yn unig, heb unrhyw ffigyrau mynegol am flynyddoedd dilynol.

29. Felly, mae'n synhwyrol i gyflawni'r cynllun ymateb cyfredol am y ddwy flynedd nesaf, cyn adnabod y bwlch pellach i'w ariannu erbyn 2018/19 a 2019/20. Erbyn hynny, gobeithir bydd llywodraeth ganolog yn ariannu rhan o'r pwysau ar wasanaethau awdurdodau lleol, megis yr isafswm cyflog byw. Hefyd, gall y cynlluniau ar gyfer diwygio llywodraeth leol fod yn fwy eglur a chodi cyfleon am arbedion cynnar cyn 2020. Bydd y gymuned llywodraeth leol, gan gynnwys y Pennaeth Cyllid fel Cadeirydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru, yn ymgyrchu am setliadau pedair blynedd i'r dyfodol ar ôl etholiad Mai 2016.

30. Yn y cyfamser, argymhellir y dylid parhau i weithredu ar sail yr un amrediad o bosibiliadau a gytunwyd eisoes am 2016/17 – 2017/18, sef:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Cyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor o fewn amrediad 3.5% - 5% *(3.97%, sy'n +£2.4m yn 2016/17)* |
| Y Gyllideb Ysgolion | Parhau i weithredu'r targed £4.3m o'r gyllideb ysgolion *(£2m yn 2016/17 a £1m yn 2017/18)* |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu *(£6.4m yn 2016/17 a £7.6m yn 2017/18)* |
| Toriadau | Gweithredu fel bydd angen er mwyn arbed y balans fydd ar ôl *(£4.9m dros 2016/17 a 2017/18)* |

31. Mae'r strategaeth i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd eisoes ar droed gyda £26m o gynlluniau wedi'u cymeradwyo neu wedi'u gweithredu ers 2014/15, ac eraill gwerth £7m dan sylw pellach.

32. Mae'r strategaeth 'Her Gwynedd' i flaenoriaethu toriadau hefyd wedi symud ymlaen, gyda rhaglen gynhwysol yn sefydlu blaenoriaethau er mwyn ceisio sicrhau bydd y toriadau anochel yn adlewyrchu blaenoriaethau trigolion Gwynedd. Wrth gwrs, mae hyn yn destun yr un penderfyniad gan y Cyngor llawn a'r papur dilynol ar raglen y cyfarfod yma.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

33. Mae'r holl strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd a chadw'r cynnydd yn y Dreth Cyngor i'r lleiafswm fyddai'n gyson gyda'r amcan hwnnw.

34. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod unrhyw arbedion y bydd yn rhaid i ni eu cyflawni yn cael eu gweithredu yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

**Ystyriaethau perthnasol**

35. Trafodwyd mewn gweithdai, y Pwyllgor Archwilio, a'r Cabinet, rhinweddau codi llai neu fwy o Dreth Cyngor, fyddai'n effeithio ar lefel y toriadau y bydd eu hangen dros y cyfnod. Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb i'w osod yn 2016/17 ar sail y materion a nodir yn y papurau atodol, ac ystyried a ydynt yn dymuno newid unrhyw elfen.

36. Bu proses gynhwysol yn ymgynghori gyda'r cyhoedd a gyda thrwch aelodau'r Cyngor. Mae'r adroddiad dilynol yn nodi canlyniadau'r broses, er mwyn i'r Cyngor ystyried barn aelodau am yr opsiynau ac ystyried argymhellion y Cabinet i'r Cyngor. Mater i'r Cyngor fydd mabwysiadu'r gyllideb a argymhellir neu beidio.

---

**Atodiadau**

Adroddiad manwl Cyllideb 2016/17 a Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20
Atodiad 1 – Manylion 'Bidiau' 2016/17
Atodiad 2 – Rhaglen Gyfalaf 2016/17 – 2017/18
Atodiad 3 – Cyllidebau 2016/17 y Gwasanaethau